# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 6 Chwefror 2014 i'w hateb ar 11 Chwefror 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am safon y gofal mewn ysbytai yn ardal Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg? OAQ(4)1482(FM)

2. **Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**: Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer yr undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)1490(FM)

3. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i greu gwaith newydd yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1485(FM)

4. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adroddiadau diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch taliadau anghyfreithlon yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ac yng Nghyngor Sir Penfro? OAQ(4)1496(FM)

5. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion ynghylch sut y cytunir ar ganlyniadau gyda Chomisiynwyr a benodir ganddo ef, a sut y cânt eu monitro? OAQ(4)1487(FM)

**6. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer cefnogi'r economi yng Nghymru? OAQ(4)1499(FM)**W**

**7. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector pysgota? OAQ(4)1488(FM)

**8. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhwydwaith Cyngor ar Bopeth ym Mhowys? OAQ(4)1494(FM)

**9. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru? OAQ(4)1491(FM)

**10. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyswllt y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol? OAQ(4)1495(FM) **TYNNWYD YNOL**

**11. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am recriwtio athrawon gwyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(401484(FM)

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol? OAQ(4)1489(FM)

**13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r modd y darperir gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(4)1483(FM)

**14. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer atal clefyd y galon yng Nghymru? OAQ(4)1497(FM)

**15. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth i bobl ag afiechydon prin? OAQ(4)1486(FM)